sir ddinbych denbighshire
Cyngor / County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | CYNGOR |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 8 Rhagfyr 2020 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd/Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, AD a Chyfreithiol |
| **Teitl** | Y Fargen Dwf Derfynol |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yma'n sôn am Fargen Dwf Gogledd Cymru.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwyno i'r Cyngor y prif ddogfennau sydd eu hangen i gyrraedd Cytundeb Bargen Derfynol ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cymeradwyo Cynllun Busnes Trosfwaol fel y ddogfen sy'n nodi'r trefniadau i gyflawni Bargen Dwf Gogledd Cymru fel sail ar gyfer ymrwymo i'r Cytundeb Bargen Derfynol a derbyn y Llythyr Cyllido Grant gyda Llywodraethau Deyrnas Unedig a Chymru.

3.2. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r darpariaethau yng Nghytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau anweithredol a'i fod yn mabwysiadu'n benodol y trefniadau ar gyfer Craffu sydd wedi'u nodi yn *"Cytundeb Llywodraethu 2: Atodlen 3"* fel y sylfaen ar gyfer cwblhau'r Cytundeb Bargen Derfynol a derbyn y Llythyr Cyllido Grant gyda Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru.

3.3. Bod y Cyngor yn awdurdodi'r corff atebol, Cyngor Gwynedd, i arwyddo'r llythyr Cynnig Cyllid Grant ar ran y Partneriaid.

3.4. Bod y Cyngor yn cymeradwyo’r dull a ddefnyddir i gyfrifo cost y benthyca sy’n ofynnol yn dybiannol i hwyluso’r llif arian negyddol ar gyfer y Fargen Dwf, ac i gynnwys darpariaeth yng nghyllideb y Cyngor i dalu’r cyfraniad hwn a’r cyfraniadau craidd ac atodol sefydledig fel y’u nodir yn GA2 (ac ym mharagraffau 5.5 – 5.7 o’r adroddiad templed sydd ynghlwm fel rhan o Atodiad 1).

3.5. Bod y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn cael awdurdod dirprwyedig i gytuno ar fân newidiadau i'r dogfennau gyda'r Partneriaid yn ôl yr angen i gyflawni'r cytundeb.

3.6. Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried cynnwys yr Asesiad o’r Effaith ar Les Cyngor Sir Ddinbych sydd ynghlwm fel Atodiad 2 fel rhan o’i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Yn 2016, mabwysiadodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru. Yn ddiweddarach, cafodd y Weledigaeth honno ei mabwysiadau gan y 6 Cyngor yng Ngogledd Cymru. Yn seiliedig ar y Strategaeth Gweledigaeth Twf, fe baratowyd cais Cynnig Twf a’i gytuno gan bob partner, yn cynnwys Cyngor Sir Ddinbych, gan weithio gyda Llywodraethau Cymru a’r DU a’r sector preifat ym mis Hydref 2018. Ym mis Tachwedd 2019, cytunodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a’r DU ar benawdau'r telerau ar gyfer Cytundeb Bargen Derfynol i gael ei gwblhau tuag at ddiwedd 2020.

4.2. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gyrraedd Cytundeb Bargen Derfynol gyda’r ddwy Lywodraeth erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020. Mae Swyddfa Rheoli Portffolio, sy’n cael ei gyflogi gan Gyngor Sir Gwynedd fel yr awdurdod arweiniol ar ran y rhanbarth, wedi llunio’r dogfennau sydd eu hangen i gyflwyno i’r ddwy Lywodraeth er mwyn cyrraedd Cytundeb Twf Terfynol. Mae cynnwys y dogfennau hyn wedi’u hamlinellu yn y pecyn o bapurau sydd ynghlwm i’r adroddiad yma fel Atodiad 1. Mae’r pecyn yn cynnwys templed o adroddiad sydd wedi cael ei ddosbarthu i’w ystyried trwy brosesau democrataidd pob awdurdod lleol, ynghyd â nifer o ddogfennau ategol yn cynnwys Cynllun Busnes Cyffredinol, Cytundeb Bargen Dwf Derfynol a Chytundeb Llywodraethau y bydd y partneriaid perthnasol yn ymrwymo iddo.

4.3. Yn Atodiad 1, gall yr Aelodau weld y bydd rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor, ynghyd â phob partner arall, gymeradwyo'r dogfennau amrywiol a fydd yn galluogi i'r Fargen Dwf Derfynol gael ei gwblhau gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

4.4. Ar 24 Tachwedd 2020, fe ystyriodd y Cabinet y dogfennau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yma ac argymhelliad y Pwyllgor Craffu Partneriaethau y dylai'r Cabinet a'r Cyngor gefnogi a chymeradwyo'r dogfennau sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r Fargen Dwf Derfynol. Penderfynodd y Cabinet i gefnogi'n ffurfiol y dogfennau angenrheidiol i gwblhau'r Bargen Dwf Derfynol a chymeradwyo'r rhannau hynny o Gytundeb Llywodraethu 2 sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithredol. Fe argymhellodd y Cabinet bod y Cyngor yn cymeradwyo'n ffurfiol y dogfennau fel y'i nodwyd yn argymhellion 3.1 - 3.6 uchod.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Fargen Dwf yn seiliedig ar themâu sydd yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y gost i'r Cyngor yn cynnwys dau bennawd. Y cyntaf fydd cyfran y Cyngor o gostau rhedeg y Cyd-bwyllgor a'r swyddfa Rheoli Portffolio a amlygwyd ym Mharagraff 5.7 yr adroddiad cyflwyno sy'n ffurfio rhan o atodiad 1. Bydd hyn yn costio £90K y flwyddyn. Rydym wedi ymrwymo i'r cyfraniadau yma dros y blynyddoedd diwethaf fel rhan o'r gwaith i gyrraedd y cam yma, ac mae cyllideb eisoes wedi cael ei chymeradwyo fel rhan o'r gylched cyllideb flynyddol ar gyfer y costau yma. Yr ail bennawd o wariant fydd cyfran y Cyngor o'r gost o fenthyg i gefnogi'r Bargen Dwf. Mae'r costau yma wedi'u nodi ym mharagraff 5.5. a 5.6 yr adroddiad eglurhaol sydd yn ffurfio rhan o Atodiad 1. Bydd y gost i'r Cyngor yn amrywio o isafswm o £64,000 y flwyddyn am 15 mlynedd a £90,670 y flwyddyn am 15 mlynedd. Mae'r costau yma'n ychwanegol i'r ymrwymiadau presennol a bydd angen i gyllid ffurfio rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2021/22.

# 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Ar y cyfan, mae'r Cais Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn cael ei asesu fel bod yn cael effaith gadarnhaol ar Ogledd Cymru yn gyffredinol a Sir Ddinbych yn benodol. Daw ei brif fanteision o'r mwy o gyfleoedd cyflogaeth, gweithgarwch economaidd, cyfoeth a lles personol a busnes y bydd ei weithgareddau yn creu, yn arwain at gymunedau mwy bywiog a chynaliadwy, gyda llai o amddifadedd a diweithdra, a gostyngiad yn yr anghydraddoldeb sy'n deillio o amddifadedd.

Mae risgiau, fodd bynnag - o ran pa mor gynhwysol fydd y twf a'r effaith y gallai twf gael ar y rhanbarth yn gyffredinol a Sir Ddinbych yn benodol.

Mae sylw eisoes yn cael ei roi i'r mesurau sydd eu hangen i sicrhau twf cynhwysol. Mae sgiliau a chyflogaeth yn nodwedd allweddol o waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yr Weledigaeth Twf a'r Cynnig Twf, gyda ffocws penodol ar sgiliau pobl ifanc a gwella cyflogadwyedd ar gyfer oedolion oedran gweithio sydd yn bell o'r gweithle ar hyn o bryd. Mae mentrau wedi cael eu cynllunio i sicrhau bod y gadwyn gyflenwi lleol a busnesau lleol yn elwa o gynigion mewnfuddsoddi a phrosiectau trawsnewidiol.

Gellir rhoi mesurau lliniaru ar waith ar gyfer effeithiau andwyol posibl ar yr amgylchedd naturiol, cynaliadwyedd, y Gymraeg a diwylliant, a byddant yn cael eu monitro'n ofalus trwy'r bartneriaeth ranbarthol, a'n prosesau ein hunain (e.e. Archwilio Mewnol, Llywodraethu Corfforaethol, Cabinet, Craffu ac ati). Mae'r asesiad hwn wedi canfod nifer o ffactorau lliniaru cadarnhaol mewn cysylltiad â hyn. Mae angen rhagor o waith ar y rhain er mwyn sicrhau bod effeithiau andwyol posibl yn cael eu lleihau a bod cyfleoedd cadarnhaol yn cael eu dal.

Bydd gan systemau cynllunio unigol y rhanbarth rôl gadarn i'w chwarae wrth sicrhau nad yw twf yn llethu'r hyn sy'n gwneud y rhanbarth yn lle da i fyw ar hyn o bryd, felly er enghraifft, dim ond safleoedd sydd wedi'u hoedi sydd eisoes â chaniatâd cynllunio ac sydd wedi'u cynnwys yn y CDLlau a Fabwysiadwyd y mae'r Rhaglen Tir ac Eiddo yn dymuno eu dwyn ymlaen. Mae gofyniad diweddar gan Lywodraeth Cymru i ranbarthau gynhyrchu eu cynllun datblygu rhanbarthol eu hunain a ddylai sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu rhanbarthau a chryfhau agwedd cynllunio strategol y Fargen Dwf. Nid yw'r gwaith wedi dechrau eto ar gynllun datblygu rhanbarthol o'r fath, ac nid oes cytundeb ynglŷn â sut i symud ymlaen â hyn.

# 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae datblygu cynnwys y Fargen Dwf wedi bod yn broses gynhwysol gyda chyfranogiad sylweddol ar draws y sector cyhoeddus a busnes. Mae cynghorwyr wedi cael eu briffio ar fwriadau strategol y Weledigaeth a Strategaeth Twf a datblygiad y Cais Bargen Twf, cynhaliwyd y diweddaraf ar ffurf gweithdy ar 7 Hydref 2020.

8.2. Yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2020, ystyriodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau Fargen Twf Gogledd Cymru a'r ddogfennaeth arall sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

Er bod gan aelodau'r Pwyllgor bryderon ynghylch yr effaith bosibl y byddai pandemig COVID-19, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch BREXIT ac unrhyw fargeinion masnach yn y dyfodol yn eu cael ar y prosiectau a oedd yn rhan o'r Fargen arfaethedig, yn ogystal â ffyniant a gwytnwch economaidd yr ardal yn y dyfodol, roeddent yn cydnabod bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi adnabod y risgiau hyn ac yn eu monitro. Sicrhawyd yr aelodau bod y trefniadau llywodraethu a amlinellwyd yn nogfen GA2 a'r Achos Busnes Cyffredinol yn capio cyfraniad ariannol blynyddol pob awdurdod tuag at y Fargen Dwf, gyda mesurau diogelwch mewn grym i sicrhau pe byddai angen cyllido ychwanegol, dim ond ar ôl cael ei gymeradwyo trwy brosesau democrataidd pob awdurdod y byddai ar gael.

Ar ôl ystyried y ddogfennaeth a'r wybodaeth a ddarparwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon ac yn sicr y byddai cytundeb GA2 yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd, rheoli risg, monitro perfformiad ac ansawdd, a threfniadau craffu, gan gefnogi cyflawni amcanion y Fargen ar gyfer Sir Ddinbych a'r rhanbarth. Roedd yr aelodau o'r farn bod y Fargen Dwf yn gyfle gwych i'r rhanbarth wireddu ei botensial economaidd, ond pwysleisiwyd yr angen, ar ôl i'r Cytundeb Bargen Dwf gael ei gymeradwyo a'i sicrhau, i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gysylltu ei waith â gwaith rhaglenni proffil uchel arall, fel Pwerdy'r Gogledd, er mwyn ceisio sicrhau'r budd mwyaf i'r rhanbarth o'r prosiectau a'r buddsoddiad a wnaed.

8.3. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi ac argymell y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y dogfennau i'w cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w cadarnhau a'u cymeradwyo'n ffurfiol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae Adran 6 yr adroddiad hwn yn nodi'n glir beth yw goblygiadau ariannol cymeradwyo Cais Twf Cymru. Mae yna ddarpariaeth cyllideb sylfaenol yn barod ar gyfer cyfraniad o £90,000 ar gyfer costau rheoli'r Rhaglen. Bydd cyllideb sylfaenol ychwanegol ar gyfer elfen costau benthyg yn ffurfio rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2021/22. Serch hynny, dylid nodi unwaith y caiff y cytundeb ei gymeradwyo, bydd Sir Ddinbych yn ymrwymedig i'r cyfraniadau hynny. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud gyda chydweithwyr cyllid ar draws y rhanbarth dros y misoedd diwethaf i lunio cynllun cyllido. Mae'r cynllun arfaethedig yn sicrhau cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd a hyd y cyfraniadau tra'n sicrhau rhaniad teg a chyfiawn o'r costau rhwng partneriaid hefyd.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae dadansoddiad risg wedi cael ei lunio'n rhan o fodelu'r achos busnes ar gyfer y rhaglenni a phrosiectau sy'n creu'r Fargen Dwf. Bydd dadansoddiad o'r risg yn rhan annatod o'r broses o gymeradwyo'r prosiect.

10.2. Os nad yw'r partneriaid yn cytuno ar y Fargen Dwf yna ni fydd £240 miliwn o arian y Llywodraeth yn cael ei neilltuo i economi Gogledd Cymru ac ni fydd Rhaglenni/Prosiectau cysylltiedig a'u canlyniadau yn cael eu cyflwyno.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. S2 Deddf Llywodraeth Leol 2000